Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/CS/7852/11

Ionawr 2012

Annwyl Arweinydd

Rwy'n ysgrifennu atoch i gychwyn deialog fel rhan o'm hymrwymiad i feithrin perthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Er y bydd gennym weithiau farn wahanol ar faterion penodol, mae gennym bethau sy'n gyffredin hefyd. Yn anad dim, mae gan bawb ddiddordeb mewn diogelu a gwella'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl ledled Cymru'n dibynnu arnynt yn eu bywydau bob dydd.

Mae nawr yn amser da i ddechrau'r ddeialog honno. Fel y gwyddoch o bosib, Cyngor Partneriaeth Cymru yw'r fforwm statudol ar gyfer ymgysylltiad democrataidd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr cyfarfu amrywiaeth o arweinwyr Llywodraeth Leol â Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Gwnaed cynnydd ar nifer o faterion allweddol, yn fwyaf penodol, cytunwyd ar y 'Compact ar gyfer Newid' rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol.

Mae ein perthynas yn hanfodol er mwyn cyflenwi'n llwyddiannus ar gyfer pobl Cymru yn y cyfnod heriol hwn. Mae'r Compact yn ymrwymiad ar y cyd i gamau gweithredu a fydd gyda'i gilydd yn sicrhau gwasanaethau gwell i bobl a chostau is ond ar yr un pryd yn cynnal ac yn atgyfnerthu atebolrwydd democrataidd lleol. Bydd yn sicrhau deialog gytbwys ac adeiladol ar sut orau i gyflenwi ystod o wasanaethau llywodraeth leol ac a ddylai'r gwasanaethau fod yn ôl-troed lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Gellir dod o hyd i'r Compact drwy ddilyn y ddolen isod[1] neu gallwch gael copi caled oddi wrth eich Gwasanaethau Aelodau.

Cydweithredu yw un o'r prif ddulliau a ddefnyddiwn i sicrhau gwasanaethau cyson o ansawdd uchel yn erbyn y cefndir o hinsawdd economaidd ariannol llym presennol a'r galwadau cynyddol ar wasanaethau. Er mwyn i fwy o gydweithredu gyflawni ei botensial llawn mae angen arweiniad ysbrydoledig ar bob lefel. Mae eich arweiniad gwleidyddol cryf

[1] http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publications/compact/?skip=1&lang=cy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

chi yn hanfodol i hyn, gan y bydd penderfyniadau ynghylch cynllunio a rheoli gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu gwneud drwy fframweithiau democrataidd lleol.

Fel arweinwyr cymunedol, gallwch ymgysylltu'n bositif â'r agenda hon drwy ddefnyddio gwybodaeth dryloyw am berfformiad a threfniadau llywodraethu i barhau i graffu ar gyflenwi gwasanaethau - boed y rhain yn cael eu cyflenwi'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Ynghyd â chyflwyno pwerau ar gyfer craffu ar y cyd, dylai'r ôl-troed cydweithredol rhanbarthol helpu yma i ddod â sefydlogrwydd ac eglurder i ddatblygiad cydweithrediadau yn y dyfodol. Fel y dywedais ar sawl achlysur, nid yw'n fwriad rhoi'r gorau i bartneriaethau llwyddiannus sydd eisoes wedi'u sefydlu, ond mae'r trefniadau newydd yn cynnig sylfeini cryf ar gyfer gweithio yn y dyfodol ac rwy'n dibynnu ar yr awdurdodau lleol i fachu ar bob cyfle i weithio ar y sail hon.

Roeddwn hefyd yn falch fod y Cyngor Partneriaeth wedi rhoi ystyriaeth i'w strwythur ei hun er mwyn gallu adlewyrchu a herio'r ffordd o gyflenwi ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i unigolion yng Nghymru. Ymysg y cynigion ar gyfer y Cyngor newydd mae ehangu aelodaeth a rhoi cynrychiolaeth awdurdod lleol ar ôl-troed rhanbarthol.

Mae'r setliad llywodraeth leol a gyhoeddais ar 7 Rhagfyr yn darparu cynnydd o ran arian parod yn y cyllid refeniw ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn erbyn cefndir o leihau cyllidebau mewn sawl maes arall o wariant cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod pedair blynedd o adolygiad o wariant, bydd cyllid craidd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru'n cynyddu tra bydd cyllid cymaradwy yn Lloegr yn syrthio. Rwy'n dyrannu'r cyfan o'r cyllid Grant Cynnal Ardrethi i awdurdodau lleol, gan roi ichi'r rhyddid i ddewis penderfynu rhewi'r dreth gyngor yn lleol. Rwy'n deall bod gennych ddewisiadau anodd ei gwneud yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf wrth ichi ystyried eich cyllidebau.

Nododd y Cyngor Partneriaeth hefyd y cynnydd positif iawn a wnaed ar fenter newydd Benthyca Llywodraeth Leol. Bydd hyn yn darparu hyd at £12m yn flynyddol mewn cymorth refeniw i alluogi awdurdodau lleol i ryddhau cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn priffyrdd. Gallai hynny olygu dros £170m o fuddsoddiad newydd fyddai'n dod â manteision gwirioneddol i bobl leol yn ogystal ag i'r economi yng Nghymru. Mae gwaith i'w wneud o hyd ar y manylion ond rwy'n gobeithio bod modd symud y fenter hon ymlaen yn gyflym iawn yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r fenter cyllid newydd hon yn ategu cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Addysg a Sgiliau o £1.4 biliwn ar gyfer buddsoddi yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol ar gyfer pennu datblygiadau diweddar allweddol, ac y byddwch yn cefnogi eich Cyngor wrth gamu ymlaen at heriau'r dyfodol.

Rwy'n anfon copïau o'r ohebiaeth hon at John Davies a Steve Thomas o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu copi o'r llythyr hwn â holl Gynghorwyr eich awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd.

Carl Sargeant

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities